**Rhif: WG33194**

Dogfen ymgynghori
Llywodraeth Cymru

# TOCYNNAU BWS RHATACH I BOBL IAU YNG NGHYMRU

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 04 Ionawr 2018

**CYNNWYS**

| | |
|---|---|
| Cynnwys | Tudalen 1 |
| Trosolwg | Tudalen 2 |
| Cyflwyniad gan y Gweinidog | Tudalen 5 |
| Crynodeb gweithredol | Tudalen 7 |
| Y rheswm dros yr ymgynghoriad | Tudalen 10 |
| Yr hyn sy’n cael ei gynnig ar hyn o bryd | Tudalen 10 |
| Opsiynau i’w hadolygu | Tudalen 11 |
| Gweithredu | Tudalen 11 |
| Ymateb i’r ymgynghoriad | Tudalen 12 |
| Ffurflen ymateb (Atodiad A) | Tudalen 13 |

**Trosolwg**

Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn i geisio barn am gynllun i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio bysiau lleol a gwasanaethau TrawsCymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl ifanc rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae bysiau – yn benodol - a threnau'n ffordd bwysig i bob un ohonom fanteisio ar addysg, hyfforddiant, gwaith a hamdden.

**Sut i ymateb**

Bydd y cyfnod ymgynghori'n dechrau ar 10 Hydref 2017 ac yn dod i ben am 11:59 ar 04 Ionawr 2018. Gofalwch fod eich ymateb yn ein cyrraedd cyn y dyddiad cau.

Mae'r ddogfen ar gael ar y rhyngrwyd:

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru

Gallwch ymateb drwy:

- Lenwi'r ffurflen ymateb yn Atodiad A; neu
- E-bostio neu bostio'ch ymateb gan ddefnyddio manylion cyswllt isod:

**MANYLION CYSWLLT**


Cyfeiriad: Yr Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: Bus2@gov.wales


**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gallwch wneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r ddogfen ar gael ar y rhyngrwyd yn

https://ymgyngoriadau.llyw.cymru

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth, cysyltwch â'r:<br><br>Is-adran Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd CF10 3NQ<br><br>E-bost: Bus2@gov.wales |
| **Diogelu data** | Sut y caiff y sylwadau a'r wybodaeth a gawn gennych ei defnyddio.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd staff eraill Llywodraeth Cymru yn ei gweld hefyd i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.<br><br>Rydym yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon, ac mae'n bosibl y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.<br><br>Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, efallai y bydd rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â gwneud hynny. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn penderfynu datgelu'r wybodaeth. |

**Cyflwyniad gan y Gweinidog**

Rwy'n benderfynol o wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy atyniadol i bobl iau. Rydym eisoes wedi gweld mai bysiau yw'r drafnidiaeth gyhoeddus bwysicaf, o bell fordd, i'r grŵp oedran hwn. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, sydd hefyd yn cyfrannu cryn dipyn at dalu am gost y rhwydwaith bysiau, a'r gweithredwyr bysiau eu hunain.



Mae'r rhwydwaith bysiau, ynddo'i hun yn caniatáu i ni fanteisio ar wasanaethau a chyfleusterau allweddol. Gallai hyn gynnwys addysg, hyfforddiant, gwaith, mynd i siopa, gweld ffrindiau a pherthnasau, neu fwynhau diwrnod allan.

Rwy'n benderfynol o weithio gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, Defnyddwyr Bysiau Cymru a'r diwydiant bysiau, i ddatblygu rhwydwaith bysiau atyniadol a chynaliadwy.

Roedd yr Uwchgynhadledd Bysiau a gynhaliwyd fis Ionawr diwethaf yn gam sylweddol ymlaen, a'r hydref hwn, caiff cyfres o weithdai eu cynnal ar hyd a lled Cymru i ystyried y camau y gellid eu cymryd i gyrraedd y nod hwnnw.

Bydd y cynllun newydd rwy'n bwriadu ei gyflwyno yn ystod 2018 yn ffordd well a mwy atyniadol o annog pobl iau i ddefnyddio'r bws yn amlach pan fydd angen iddynt deithio. Mae'r cynllun presennol wedi dechrau'n dda ond mae angen i ni wneud rhagor os ydym am newid agweddau.

Rwy'n gobeithio, felly, y gallwn ddatblygu cynnig newydd a fydd yn annog pobl iau i ddewis teithio ar y bws i gael addysg, hyfforddiant a gwaith, i fynd hwnt ac yma, gan gyfrannu at Gymru fwy gwyrdd, glân ac iach.

Mae'r polisïau hyn, a pholisïau eraill, eisoes yn cael eu datblygu drwy weithredu'n drawsbynciol. Er enghraifft, rydym yn disgwyl i'n rhaglenni cyflogadwyedd newydd ddechrau ym mis Ebrill 2019. Cânt eu cyflwyno fel un cynnig unigol o dan yr enw, 'Cymru'n Gweithio', a fydd yn cynnwys rhaglen newydd ar gyfer oedolion, ynghyd â dwy raglen newydd i roi cymorth i bobl ifanc ddod o hyd i waith. Bydd rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus da yn allweddol i alluogi pobl i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Yn y cyfamser, byddwn yn ad-drefnu ein rhaglenni presennol, yn addasu rhai o'r rhaglenni cyflogadwyedd presennol, gan gynnwys ReAct, Twf Swyddi Cymru, a ariennir

gan yr UE, a’r rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, i sicrhau eu bod yn gydnaws â’i gilydd er mwyn gwella’r cymorth sydd ar gael i’r di-waith a’r rhai sy’n symud o’r naill swydd dros dro i’r llall, a hynny am ychydig iawn o dâl.

Ac mae cynlluniau eraill i ddatgarboneiddio trafnidiaeth, i leihau tagfeydd traffig ac i helpu bysiau’n benodol i fod yn fwy prydlon, hefyd yn cyd-fynd â’r dull hwn o weithredu. Er enghraifft, ein strategaethau ar gyfer system Metro yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru - bydd gan yr ail ran bwysig yn y cynllun i roi ein hymrwymiadau “Ein Cymoedd, Ein Dyfodol” ar waith.

Mae’r ymgynghoriad hwn yn dilyn ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach eleni ynghylch dyfodol y rhwydwaith bysiau’n fwy cyffredinol. Bydd yr ymgynghoriadau hyn, ynghyd â gweithdai’r Uwchgynhadledd Bysiau a gaiff ei chynnal cyn bo hir, yn rhoi cyfle prin i ni edrych o’r newydd ar y rhwydwaith bysiau, a’i adfywio, yn ôl ein blaenoriaethau chi.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn gallu gweithredu unrhyw gynnig i annog rhagor o bobl ifanc i ddefnyddio’r rhwydwaith bysiau heb roi sylw dyladwy i apêl y car. Yn sicr, ni all bysiau a threnau gynnig yr un dull annibynnol o deithio â’r car. Ond mae ceir hefyd yn llygru’n hamgylchedd yn fwy na bysiau a threnau. Nid oes angen cerdded  i’r orsaf fysiau neu’r safle bws, na cherdded i’r gyrchfan ar ddiwedd y daith. Felly, mae ceir yn tanseilio’r ymgyrch teithio egnïol a’r buddion iechyd cysylltiedig, i’r rhan fwyaf ohonom o leiaf.

Er bod y rhan fwyaf ohonom sydd wedi teithio ar fws yn ddiweddar yn gwybod bod mwyafrif helaeth y bysiau ar ein ffyrdd yn lân, yn gyfforddus ac yn hwylus, yn anffodus, mae’r argraff - anghywir - nad yw bysiau’n cymharu’n ffafriol â cheir, yn parhau. Efallai bod hyn yn wir ar un adeg, ond nid dyna’r sefyllfa erbyn hyn.  Mae llawer o’r bysiau ar rwydwaith TrawsCymru sy’n rhedeg ar wasanaethau hirbell yn cynnwys seddi lledr, system aerdymheru, Wifi a sgriniau arddangos gwybodaeth glywedol. Mae Traveline Cymru yn cynnwys manylion am y rhwydwaith bysiau sy’n caniatáu i unrhyw un sy’n cysylltu â nhw gynllunio’u taith.

Felly, hoffwn annog rhagor o bobl ifanc i ddefnyddio’r bws drwy dreialu cynllun tocynnau bws rhatach i bobl iau. Gobeithio hefyd y bydd nifer o bobl ifanc sydd, hyd yma, wedi defnyddio bysiau dim ond i deithio yn ôl ac ymlaen i’r ysgol, yn manteisio ar y cynllun newydd i deithio am resymau eraill ac, ar ôl gwneud hynny,  fe welant fod bysiau heddiw’n cynnig dull atyniadol iawn o deithio.

Byddai’n afrealistig, mae’n debyg, disgwyl i bob person ifanc droi cefn ar fanteision y car ar gyfer pob siwrnai. Fodd bynnag, mae’n gwbl realistig i nifer o bobl iau deithio ar fws yn amlach.  Dyna pam rwy’n gwahodd awgrymiadau ar gynnwys y cynllun tocynnau bws rhatach newydd i bobl iau a fydd yn dechrau yn ystod 2018. Edrychaf ymlaen yn arw at gael eich sylwadau.

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith

**Crynodeb Gweithredol**

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016, yn esbonio sut y byddwn yn creu mwy o swyddi, a'r rheini'n swyddi gwell, drwy greu economi gryfach a thecach, gwella a diwygio'n gwasanaethau cyhoeddus ac adeiladu Cymru sy'n wlad fwy unedig, cysylltiedig a chynaliadwy.

Mae sefydlu rhwydwaith mwy effeithiol o wasanaethau bws lleol, ynghyd â system ddi-dor, integredig ac amlfodd o brynu tocynnau fel rhan o drefniadau teithio newydd Cymru, yn hanfodol os ydym am gyflawni'r nod o greu cymdeithas gysylltiedig a chynaliadwy. Mae hyn yr un mor bwysig i bobl iau sydd, efallai, yn parhau â'u haddysg neu eu hyfforddiant, yn dechrau gweithio fel prentisiaid, yn chwilio am waith neu'n cyfarfod â ffrindiau.

Mae'r papur ymgynghori hwn yn dangos sut y gellir annog rhagor o bobl ifanc i roi cynnig ar deithio ar y bws – am y tro cyntaf ers blynyddoedd efallai – a defnyddio tocynnau rhatach.

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun peilot – FyNhocynTeithio – i dreialu tocynnau rhatach i bobl rhwng 16-18 oed. Drwy'r cynllun hwnnw, roedd modd i bobl iau gael gostyngiad o draean oddi ar bris tocyn os oedd ganddynt gerdyn FyNhocynTeithio. Mae'r cynllun ar waith o hyd.

Hyd yma, mae dros 15,000 o bobl ifanc wedi gwneud cais am gerdyn FyNgherdynTeithio. Cyfanswm o oddeutu 113,000 sydd yn y categori oedran hwn felly mae'r nifer sydd wedi dangos diddordeb yn cyd-fynd ag amcangyfrif cychwynnol Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r diwydiant bysiau. Fodd bynnag, rydym ni a'n partneriaid yn awyddus i'r ffigur hwnnw godi'n sylweddol.

Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i Weinidogion Cymru, os dymunant, sefydlu cynllun teithio dewisol sy'n cynnwys unrhyw un o'r categorïau uchod o bobl iau, neu bob categori, a hynny drwy Orchymyn o dan Adran 93(7)(f) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Yn ogystal â hyn, gellid ychwanegu cynllun gorfodol drwy ail Orchymyn o dan Adran 147(a) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

Oni bai, a hyd nes, caiff deddfwriaeth ei chyflwyno i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynllun statudol ar gyfer unrhyw grŵp arall, bydd angen trefniant gwirfoddol gyda gweithredwyr bysiau Cymru. Byddai cynyddu nifer y bobl iau sy'n defnyddio'r bws o fudd masnachol amlwg i'r diwydiant bysiau, a byddent hwy a ninnau'n gobeithio

## Y rheswm dros yr ymgynghoriad

1 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod arwyddocâd y gwaith o ddatblygu cynllun atyniadol i annog pobl ifanc i ddefnyddio'r bws, ac y gallai hynny gyfrannu at ddatgarboneiddio, gwella'r amgylchedd a chreu newidiadau gwirioneddol yn y modd y mae pobl yn teithio.

2 Am y rhesymau hyn, rydym yn awyddus i glywed eich barn am y dulliau posibl o wella'r cynllun Teithio Rhatach i Bobl Ifanc. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ymestyn oedran y rhai sy'n gallu hawlio tocynnau rhatach ac yn gwella'r hyn sy'n cael ei gynnig hefyd.

3 Byddwn hefyd yn ystyried cynorthwyo grwpiau eraill hefyd – gofalwyr, gwirfoddolwyr, y rhai sy'n paratoi i ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf, neu'n ailymuno â'r farchnad.

4 Er bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod gwerth cynnig tocynnau teithio rhatach i'r grwpiau uchod, mae'n bwysig nodi bod setliadau ariannu anodd yn golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd am yr hyn a fydd yn fforddiadwy'r flwyddyn nesaf, ac yn y dyfodol.

## Yr hyn sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd

5 Ers mis Medi 2015, mae pobl iau, 16, 17 a 18 oed, yn gallu hawlio gostyngiad o draean oddi ar bris tocyn oedolyn i deithio ar fysiau yn unrhyw le yng Nghymru. Er y byddai rhai gweithredwyr yng Nghymru yn cynnig gostyngiad i bobl iau cyn hynny fel rhan o drefniant masnachol, nod y cynllun hwn oedd ehangu'r gostyngiad drwy Gymru gyfan.

6 Roedd pobl iau'n gallu gwneud cais am gerdyn ar-lein neu ar ffurf copi caled. Rydym yn credu ei bod yn bwysig i'w dewis hwn barhau. Caiff y cynllun ei weinyddu gan FyNgherdynTeithio, busnes sy'n dod o dan adain Traveline Cymru.

7. Hyd yma, mae dros 15,000 o bobl ifanc wedi gwneud cais am gerdyn FyNgherdynTeithio ac, yn ôl y canlyniadau diweddaraf, cwblhawyd dros 500,000 o siwrneiau o dan y cynllun ers mis Ebrill 2017 ac, yn ôl y rhagolygon, bydd hyn yn cynyddu i 1,500,000 siwrnai erbyn mis Mawrth 2018. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd y cynllun i'r defnyddwyr hyn.

8 Fel arfer, y cwmni sy'n darparu'r gwasanaeth sy'n pennu pris tocynnau. Yn gyffredinol, dros y tymor hir, mae pris tocynnau bws yng Nghymru wedi cyd-fynd â phrisiau Prydain Fawr yn gyffredinol ond, dros

gyfnodau byrrach, gall y gwahaniaeth rhwng y newidiadau yn y prisiau yng Nghymru a gweddill Prydain Fawr fod yn sylweddol. Mae'r ffaith bod tocynnau rhatach ar gael i bobl ifanc yn lliniaru rhywfaint ar unrhyw gynnydd mewn prisiau.

**Opsiynau i'w hadolygu**

9 Rydym eisoes wedi'n darbwyllo, at ei gilydd, y dylid cynnig gostyngiad ar gyfer pob siwrnai. Byddai'n rhy gymhleth gynnig gostyngiad dim ond ar gyfer rhai siwrneiau penodol - e.e. teithio i gael addysg neu i fynd i'r gwaith - gan y byddai hynny'n creu oedi wrth i yrrwr y bws dreulio gormod o amser yn ceisio cadarnhau bod siwrnai teithiwr yn ddilys. Mae hynny'n golygu y byddai'r cynllun yn cynnwys teithio i'r ysgol, pan fo hynny'n briodol i'r teithiwr, yn ogystal â digwyddiadau cymdeithasol.

10 Er hynny, byddem yn falch o wybod a ydych yn credu bod y pryderon ynghylch oedi wrth i deithwyr ddod ar y bws yn ddi-sail, ac ynghylch y math o siwrneiau y dylid, ac na ddylid, eu cynnwys yn y cynllun.

11. Mae'r adolygiad yn gyfle i chi ddweud a ydych o'r farn y dylid ymestyn yr oedran cymhwyso a chynnig mwy o ostyngiad ynteu eu cadw fel y maent. Byddem hefyd yn croesawu'ch barn am ehangu'r cynllun i gynorthwyo grwpiau eraill.

12. Mae'n anochel y byddai pob un o'r dewisiadau i ehangu'r cynllun presennol yn costio mwy gan y byddai cynnydd yn y nifer a fyddai'n debygol o fanteisio ar y cynllun. Mwya'n y byd yw'r gostyngiad, mwya'n y byd yw'r iawndal y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ei dalu. Fodd bynnag, efallai y gallai Llywodraeth Cymru ddod i gytundeb ag awdurdodau lleol a'r diwydiant bysiau a chytuno i rannu unrhyw incwm ychwanegol pe bai incwm y diwydiant bysiau yn cyrraedd lefel benodol, a hynny er mwyn helpu i dalu am y cynllun a lleihau'r baich ar y trethdalwr.

13. Mae'r cynllun presennol yn cynnig gostyngiad ar bob tocyn a gaiff ei brynu. Er ein bod yn rhagweld mai dyma fyddai sylfaen unrhyw gynllun newydd, byddem yn croesawu unrhyw syniadau ynglŷn â newidiadau posibl o ran taliadau addas.

**Gweithredu**

14. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i Weinidogion Cymru, os dymunant, sefydlu cynllun teithio dewisol sy'n cynnwys unrhyw un o'r categorïau uchod o bobl iau, neu bob categori, a hynny drwy Orchymyn o dan Adran 93(7)(f) o Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Yn ogystal â hyn, gellid ychwanegu cynllun gorfodol drwy ail Orchymyn o dan Adran 147(a) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

15. Oni bai, a hyd nes, caiff deddfwriaeth ei chyflwyno i alluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno cynllun statudol ar gyfer unrhyw grŵp arall, bydd angen trefniant gwirfoddol gyda gweithredwyr bysiau Cymru. Byddai cynyddu nifer y bobl iau sy'n defnyddio'r bws o fudd masnachol amlwg i'r diwydiant bysiau, a byddent hwy a ninnau'n gobeithio y byddai mwy o'r grŵp hwnnw'n parhau i ddefnyddio'r bws wrth iddynt fynd yn hŷn, gan barhau i helpu i leihau llygredd aer a thagfeydd traffig

**Ymateb i'r ymgynghoriad**

16. Yn Atodiad A, mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad, sy'n cynnwys amrywiaeth o gynigion, a gofynnwn i chi nodi'r rhai rydych chi'n teimlo y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth ddatblygu cynllun tocynnau bws rhatach i bobl iau. Byddem yn ddiolchgar pe baech yn llenwi'r ffurflen ac yn ei dychwelyd erbyn y dyddiad cau, sef 04 Ionawr 2018.

17. Ar ôl cwblhau'r elfen hon, caiff yr ymatebion eu casglu a chaiff adroddiad ar yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru: www.cymru.gov.uk.

**Atodiad A**

**Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad**

**NOD Y CWESTIWN**

**CWESTIWN 1**

Rhowch sgôr rhwng 1 a 5 (1 os nad yw'n bwysig a 5 os yw'n bwysig iawn) i ddangos i ba raddau rydych chi'n credu y mae tocynnau bws rhatach yn dylanwadu ar y modd y mae ponl ifanc yn dewis teithio. **(Dewiswch un o'r canlynol)**

| Nid yw'n bwysig | | | | Pwysig iawn | |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **Wn i ddim** |

**CWMPAS Y CYNLLUN**

Yn ôl y tueddiadau presennol, rhagwelir y bydd y cynllun yn cynorthwyo 1.5 miliwn o bobl ifanc i deithio ar y bws yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18. Hoffem wybod a ydych yn credu bod y cynnig presennol yn addas ynteu a ydych yn credu y dylid gwella'r ddarpariaeth.

**CWESTIWN 2**

Yn eich barn chi, a yw'r categori oed presennol, sef 16-18 oed, yn addas ar gyfer cynllun Tocynnau Bws Rhatach i Bobl Ifanc?

| | |
|---|---|
| **NAC YDI** | **YDI** |

**CWESTIWN 3**

Os 'Nac ydi' oedd eich ateb i gwestiwn 2, hyd at ba oed ydych chi'n credu y dylid rhoi Tocynnau Bws Rhatach i Bobl Ifanc?

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **19** | **21** | **23** | **25** | **Arall (nodwch)** |

Mae'r holiadur yn parhau drosodd

**CWESTIWN 4**

Yn eich barn chi, a yw’r gostyngiad presennol o draean (33%) oddi ar bris tocyn oedolyn yn ddigon i annog pobl ifanc i ddefnyddio’r bws?

| | |
|---|---|
| **YDI** | **NAC YDI** |

**CWESTIWN 5**

Os ‘Ydi’ oedd eich ateb i gwestiwn 4, faint o ostyngiad fyddai’n addas ac yn fforddiadwy yn eich barn chi, i annog rhagor o bobl ifanc i ddefnyddio’r bws?

**(Dewiswch un o’r canlynol)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **50%** | **66%** | **75%** | **100%** | **Arall (nodwch)** |

**CWESTIWN 6**

Mae’r cynllun presennol yn cynnig gostyngiad oddi ar bris tocyn cyfatebol i oedolyn. A fyddai’n briodol gofyn i bobl ifanc gyfrannu swm penodol am bob siwrnai? (h.y. i deithio o un lle i’r llall, waeth sawl gwaith y bydd angen newid cerbyd)

| | |
|---|---|
| **BYDDAI** | **NA FYDDAI** |

**CWESTIWN 7**

Pe bai’r cynllun yn gofyn i’r defnyddiwr gyfrannu swm penodol, faint y byddai’n briodol ei godi am bob siwrnai, yn eich barn chi?
**(Dewiswch un o’r canlynol)**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **20c** | **50c** | **£1** | **£2** | **Arall (nodwch)** |

**CWESTIWN 8**

Yn lle talu swm penodol am bob siwrnai, byddai'n bosibl cyflwyno tocyn mis neu docyn blwyddyn i'r bobl ifanc a byddai hwn yn caniatáu iddynt deithio am ddim dros y cyfnod hwnnw. Faint y byddai'n briodol ei godi am tocyn o'r fath, yn eich barn chi?

**(Dewiswch un o'r canlynol ar gyfer pob cyfnod)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tocyn mis** | **£5** | **£10** | **£20** | **£25** | **Arall (nodwch)** |
| **Tocyn blwyddyn** | **£20** | **£50** | **£100** | **£200** | **Arall (nodwch)** |

**CWESTIWN 9**

Ar hyn o bryd, mae pobl ifanc yn cael tocyn sy'n caniatáu iddynt deithio am bris rhatach ar bob siwrnai, a hynny er mwyn osgoi dryswch ac oedi pan fyddant yn mynd ar y bws. Pe baent yn cael gostyngiad dim ond am siwrneiau penodol yn unig, a ydych chi'n credu y byddai'r broses o gadarnhau bod y bobl ifanc yn gymwys i gael y gostyngiad yn achosi oedi sylweddol ?

| | |
|---|---|
| **NA FYDDAI** | **BYDDAI** |

**CWESTIWN 10**

Os 'Byddai' oedd eich ateb i Gwestiwn 9, sut fath o siwrneiau ydych chi'n credu yw'r pwysicaf?

**(Dewiswch hyd at DDAU)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teithio rhwng y cartref a'r gwaith** | **Hyfforddiant** | **Siopa** | **Addysg** |
| **Gweithgareddau hamdden eraill** | **Apwyntiad iechyd** | **Gweld ffrindiau** | **Arall (nodwch)** |

**<u>YMESTYN CYMHWYSTER</u>**

Mae'r cynllun presennol yn cael ei gynnig i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed. Hoffem wybod a ydych yn credu a ddylid ymestyn y cynllun er mwyn cynnwys grwpiau sy'n cyfrannu at gymdeithas neu grwpiau y mae angen cymorth ychwanegol arnynt i gyrraedd lleoliadau addysg neu waith.

Mae'r holiadur yn parhau drosodd

**CWESTIWN 11**

A ddylid cynnig Tocynnau Bws Rhatach i'r rhai sy'n cael Lwfans Cynhaliaeth Addysg?

| | |
|---|---|
| **NA DDYLID** | **DYLID** |

**CWESTIWN 12**

A ddylid cynnig Tocynnau Bws Rhatach i'r rhai sy'n dilyn cwrs addysg bellach AMSER LLAWN? (yn astudio am dros 15 awr bob wythnos)?

| | |
|---|---|
| **NA DDYLID** | **DYLID** |

**CWESTIWN 13**

A ddylid cynnig Tocynnau Bws Rhatach i'r rhai sy'n dilyn cwrs addysg bellach RHAN AMSER (yn astudio am rhwng 8 a 15 awr bob wythnos)?

| | |
|---|---|
| **NA DDYLID** | **DYLID** |

**CWESTIWN 14**

A ddylid cynnig Tocynnau Bws Rhatach i'r rhai sy'n rhan o gynllun prentisiaeth cydnabyddedig?

| | |
|---|---|
| **NA DDYLID** | **DYLID** |

**CWESTIWN 15**

Os 'Na ddylid' oedd eich ateb i Gwestiwn 14, a ddylai prentisiaid yn y grwpiau oedran a ganlyn fedru manteisio ar y cynllun?

**(Dewiswch un o'r canlynol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **19-21 oed** | **19-25 oed** | **19-30 oed** | **Pob oed** |

**CWESTIWN 16**

A ddylid cynnig tocynnau bws rhatach i ofalwyr cofrestredig?

| | |
|---|---|
| **NA DDYLID** | **DYLID** |

**CWESTIWN 17**

Os ‘Dylid’ oedd eich ateb i Gwestiwn 16, gofalwyr cofrestredig ym mha grŵp oedran ddylai fedru manteisio ar y cynllun?

**(Dewiswch un o’r canlynol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **19-21 oed** | **19-25 oed** | **19-30 oed** | **Pob oed** |

**CWESTIWN 18**

A ddylid cynnig tocynnau bws rhatach i bobl sy’n gwneud gwaith gwirfoddol?

| | |
|---|---|
| **NA DDYLID** | **DYLID** |

**CWESTIWN 19**

Os ‘Dylid’ oedd eich ateb i Gwestiwn 18, gwirfoddolwyr ym mha grŵp oedran ddylai fedru manteisio ar y cynllun?

**(Dewiswch un o’r canlynol)**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **19-21 oed** | **19-25 oed** | **19-30 oed** | **Pob oed** |

**CWESTIWN 20**

A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y Cynllun Tocynnau Bws Rhatach i Bobl Iau yng Nghymru?

Defnyddiwch ddalen ychwanegol os oes angen

Mae'r holiadur yn parhau drosodd

**MANYLION YR YMATEBYDD**

Printiwch y manylion a ganlyn yn y bylchau isod.

| **ENW** |
|---|
| |
| **SEFYDLIAD (os yw'n berthnasol)** |
| |
| **CYFEIRIAD POST** |
| |
| **CYFEIRIAD E-BOST** |
| |

Os nad ydych am i ni gyhoeddi'ch enw neu'ch cyfeiriad, dangoswch hynny drwy roi cylch o amgylch y blwch priodol, isod. Byddwn wedyn yn eu cuddio.

**(Rhowch gylch o amgylch un o'r canlynol)**

| | |
|---|---|
| Rwy'n fodlon i chi gyhoeddi fy enw a'm cyfeiriad, os oes angen. | Nid wyf am i chi gyhoeddi fy enw a'm cyfeiriad. |

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi.

Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, efallai y bydd rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â gwneud hynny. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn penderfynu datgelu'r wybodaeth.

Byddai’n ddefnyddiol pe baech hefyd yn rhoi’r manylion a ganlyn amdanoch chi’ch hun, a hynny er mwyn ein helpu i gyflwyno gwybodaeth am amrywiaeth yr ymatebwyr i’r ymgynghoriad hwn.

I ba grŵp oedran ydych chi’n perthyn?

**(Dewiswch un o’r canlynol)**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 16 | 16-18 | 19-22 | 23-24 | 25-59 | 60 + |

Yn eich barn chi, a oes gennych chi anabledd?

| | | |
|---|---|---|
| Oes | Nac oes | Gwell gennyf beidio â dweud |

Ar ran ba grŵp ydych chi’n ymateb? **(Dewiswch un)**

| | |
|---|---|
| Llywodraeth leol | Grŵp defnyddwyr trafnidiaeth gyhoeddus |
| Awdurdodau Addysg Lleol | Y trydydd sector |
| Grŵp anabledd | Y diwydiant rheilffyrdd |
| Grŵp cymunedol | Comisiynydd / Ombwdsmon |
| Grŵp cynghori | Y cyfryngau |
| Gweithredwr bysiau | Y sector iechyd |
| Gwasanaethau brys | Undebau llafur |
| Unigolyn | Arall (nodwch) |